RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
43/2026
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/03/2026

# Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: allbynnau cam 4 yr arolwg

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol Digidol 978-1-83745-211-8

Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: allbynnau cam 4 yr arolwg

Awdur: Colin Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright, C (2026*).Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd: Allbynau cam 4 yr arolwg.* Caerdydd:, Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 43/2026.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-canfyddiadau-chamau-gweithredu-newid-hinsawdd-cam-3-4

Rhai’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Louisa Smith

Is-adran: Tîm Ymchwil yr Hinsawdd a’r Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddAcAmgylchedd@llyw.cymru

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad .... 9

Dyluniad yr holiadur .... 9

Gwaith maes .... 9

Nodweddion sampl .... 10

Adroddiad methodoleg .... 10

Dull adrodd a strwythur .... 10

2. Canfyddiadau ac agweddau .... 13

Achosion newid hinsawdd .... 13

Pryder am newid hinsawdd .... 13

Cyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd .... 15

Camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd .... 16

Cyfrifoldeb personol a chamau gweithredu .... 17

Gwybodaeth .... 20

Tywydd eithafol .... 21

Canfyddiadau ac Agweddau: Crynodeb .... 22

3. Ynglŷn â'ch cartref .... 23

Defnyddio ynni .... 23

Camau arbed ynni .... 23

Effeithlonrwydd ynni .... 28

Ynglŷn ag ynni eich cartref Crynodeb .... 30

4. Bwyd .... 31

Deiet .... 31

Gwastraff bwyd .... 34

Camau gweithredu cynaliadwy .... 34

Bwyd: Crynodeb .... 40

5. Camau gweithredu ym mywyd bob dydd .... 41

Bywyd Bob Dydd: Crynodeb .... 48

6. Teithio .... 49

Argaeledd cerbydau .... 49

Dull teithio .... 50

Camau teithio cynaliadwy .... 54

Teithio ar gyfer gwyliau .... 57

Teithio: Crynodeb .... 59

7. Casgliad ....................................................................................................................60
Atodiad A – Data demograffig cam 4 ........................................................................62
Oedran a Gwrywod a Benywod..............................................................................62
Oedran a Math o Ardal ..........................................................................................62
Galwedigaeth a Math o Ardal.................................................................................63
Incwm ac Oedran...................................................................................................65
Incwm a Math o Ardal............................................................................................66
Galwedigaeth ac Incwm.........................................................................................66
Deiliadaeth a Math o Ardal ....................................................................................69
Deiliadaeth ac Incwm ............................................................................................70
Patrymau Demograffig: Crynodeb..........................................................................70

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 2.1 – Ymateb i 'Beth ydych chi'n credu sy'n achosi newid hinsawdd?' **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.2 – Ymateb i 'I ba raddau ydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?' ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.3 – Ymateb i 'Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd yn bersonol?' ...... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.4 – Ymateb i 'Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd yn bersonol?' ...... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.5 – Ymateb 'yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau' i – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?' yn ôl oedran. ... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.6 – Ymateb 'yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau' i - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?' yn ôl math yr ardal. ........................................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2.7 – Ymateb i – 'Faint ydych chi'n ei wybod am y canlynol?' ........ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3.1 – Ymateb i – 'Oes gennych chi fesurydd clyfar yn eich cartref?' .... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3.2 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?' yn ôl incwm yr aelwyd ........................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3.3 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?' yn ôl incwm yr aelwyd ........................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3.4 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?' yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem ..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3.5 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?' o'i gymharu â phryder am newid hinsawdd.... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4.1 – Ymateb i – 'Ar sawl diwrnod yr wythnos ydych chi'n arfer bwyta pob un o'r canlynol?' ............................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4.2 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol i'ch deiet?' yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem ...... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4.3 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol i'ch deiet?' yn ôl pryder am newid hinsawdd ....................... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4.4 – Ymateb i - ‘Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?’ yn ôl achos newid hinsawdd............**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 4.5 – Ymateb i - ‘Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?’ yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem. ....**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 4.6 – Ymateb i - ‘Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?’ yn ôl pryderu am newid hinsawdd. ..**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 5.1 – Ymateb i - ‘Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’ yn ôl incwm yr aelwyd...........**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 5.2 – Ymateb i -‘ Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’ yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem ....**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 5.3 – Ymateb i - ‘Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’ yn ôl pryderu am newid hinsawdd ..................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.1 – Ymateb i – ‘Faint o gerbydau mae gan eich aelwyd yn gallu cael gafael arnynt yn rheolaidd?’ yn ôl incwm yr aelwyd. Car........................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.2 – Ymateb i – ‘O’r cerbydau y mae eich aelwyd yn gallu cael gafael arnynt, faint sy’n gerbydau trydan a/neu hybrid?’ yn ôl incwm yr aelwyd ar gyfer aelwydydd sy’n gallu cael gafael ar un car / fan o leiaf. .................................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.3 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’ fesul gwrywod a benywod. Beic (safonol).............**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.4 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’ yn ôl oedran. Beic (safonol)...................................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.5 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’ Cerdded / defnyddio cadair olwyn ..........................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.6 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’ yn ôl incwm yr aelwyd. Awyren ..............................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.7 – Ymateb i - ‘Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth deithio o le i le?’ yn ôl achos newid hinsawdd. .................................................**Error! Bookmark not defined.**

Tabl 6.8 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?' yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem............................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.9 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?' yn ôl pryderu am newid hinsawdd...........................................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6.10 – Ymateb i - 'O'r gwyliau a gawsoch yn ystod y 12 mis diwethaf, faint wnaethoch chi eu cyrraedd drwy hedfan?' .......................................**Error! Bookmark not defined.**

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 2.1 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd?' .................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2.2 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'...............................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2.3 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich camau personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?' ........................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2.4 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?' ac 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich camau personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'.....**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2.5 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r canlynol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?' ......................................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3.1 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r canlynol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?' ......................................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3.2 – Ymateb i – 'Isod, mae rhestr o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Os oes, pa rai sydd gennych chi yn eich cartref?' yn ôl incwm yr aelwyd.........**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4.1 – Ymateb i – 'Sawl gwaith mewn wythnos nodweddiadol y mae angen i'ch aelwyd daflu bwyd sydd wedi mynd yn ddrwg neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio olaf?'...............................................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4.2 – Ymateb i – 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?'............................................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4.3 – Ymateb i – 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?' yn ôl math yr ardal.............................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5.1 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'.................................**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5.2 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?' yn ôl incwm yr aelwyd...........**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5.3 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?' yn ôl math yr ardal .**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 6.1 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’........................................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 6.2 – Ymateb i – ‘Ydych chi'n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth deithio o le i le?’ ..........................................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 6.3 – Ymateb i – ‘Yn ystod y 12 mis diwethaf, faint o’r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi eu cymryd?’ yn ôl incwm yr aelwyd.’........**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.1 – Ymateb fesul gwrywod a benywod i - ‘Beth yw eich grŵp oedran?’ .............**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.2 – Ymateb i - ‘Beth yw eich grŵp oedran?’ yn ôl math yr ardal. ....**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.3 – Ymateb i – ‘Nodwch i ba grŵp galwedigaethol y mae’r prif enillydd incwm (y sawl sydd â’r incwm mwyaf) ar eich aelwyd yn perthyn’ yn ôl math yr ardal. .....**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.4 – Ymateb i – ‘Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)’ yn ôl oedran. ..................................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.5 – Ymateb i - ‘Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)’ yn ôl math yr ardal.........................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.6 – Ymateb i - ‘Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)’ yn ôl galwedigaeth. ........................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.7 – Ymateb i – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu yn ei rentu?’ yn ôl math yr ardal. ..................................................................**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur A.8 – Ymateb i – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu yn ei rentu?’ yn ôl incwm yr aelwyd. ............................................................**Error! Bookmark not defined.**

## Rhestr termau

### Sero Net

Pan fo cydbwysedd i'w gael rhwng y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu tynnu o'r atmosffer a'r nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hallyrru (Gweithredu ar Newid Hinsawdd Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-26).

### Ymaddasu ar gyfer Newid Hinsawdd

Rhagweld y risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o newid hinsawdd a sicrhau y gallwn fynd i'r afael â'r gwaith angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod wedi paratoi'n effeithiol (Gweithredu ar Newid Hinsawdd Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-26).

### Argyfwng Natur

Mae 17% o'r 3,902 o rywogaethau a astudiwyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, ac mae llawer o rywogaethau eraill yn dirywio. Mae newidiadau i'r tywydd a'r tymheredd yn ei gwneud yn anoddach i lawer o anifeiliaid a phlanhigion oroesi (Gweithredu ar Newid Hinsawdd).

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar allbynnau y bedwaredd o chwe cham yr arolwg meintiol o Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd ymhlith aelwydydd yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cymru i ddeall yr agweddau a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon. Bydd yr ymchwil hon yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â newid ymddygiadol a chymdeithasol a bydd yn llywio datblygiad polisïau a phenderfyniadau yn y dyfodol mewn cysylltiad â datgarboneiddio.

1.2 Mae nodau yr ymchwil i'w cyflawni drwy ymchwil sylfaenol gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru dros 6 thon ddwywaith y flwyddyn, gyda tharged o 1,000 o ymatebion fesul cam.

1.3 Mae Adroddiad Allbynnau Cam 1 yr Arolwg yn rhoi mwy o fanylion am gefndir yr arolwg.

**Dyluniad yr holiadur**

1.4 Datblygwyd yr holiadur gan Gynllun Gofodol Cymru, Accent a Llywodraeth Cymru.

1.5 Dyluniwyd yr holiadur i ganiatáu i agweddau ac ymddygiadau gael eu monitro mewn camau yn y dyfodol ac fe'i strwythurwyd i gwmpasu'r chwe maes canlynol:

- Amdanoch chi a'ch aelwyd
- Eich canfyddiadau a'ch agweddau
- Ynglŷn ag ynni eich cartref
- Bwyd
- Bywyd bob dydd
- Teithio

1.6 Cafodd yr holiadur ei fireinio yn dilyn profion arolwg gwybyddol a pheilot.

1.7 Cynhwysir yr holiadur terfynol a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 4 yn yr Atodiad.

**Gwaith maes**

1.8 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer Cam 4 rhwng dydd Mawrth, 18 Chwefror a dydd Gwener, 14 Mawrth 2025.

1.9 Cwblhawyd 1,001 o arolygon: 735 ar-lein a 266 a gwblhawyd wyneb yn wyneb ar stepen y drws. Cwblhawyd 22 o arolygon yn Gymraeg. 5.6% oedd y gyfradd ymateb cyffredinol (pob arolwg a gwblhawyd fel cyfran o'r cardiau post a anfonwyd).

**Nodweddion sampl**

1.10 Cymharwyd nodweddion demograffig y sampl â setiau data cenedlaethol ar gyfer Cymru, e.e. Cyfrifiad 2021, er mwyn sicrhau bod y sampl yn cynrychioli'r boblogaeth ehangach. Roedd y cwestiynau demograffig yn cwmpasu oedran, rhywedd, ethnigrwydd, lleoliad, statws gwaith, galwedigaeth, incwm yr aelwyd, math o eiddo, a deiliadaeth.

1.11 Mae cymariaethau yn dangos bod y sampl cynrychioli poblogaeth Cymru yn fras. Mae allbynnau yr arolwg yn debyg i'r allbynnau o setiau data cenedlaethol ar gyfer oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws gwaith, incwm yr aelwyd, a galwedigaeth. Gwelwyd amrywiadau bach rhwng data yr arolwg a'r setiau data cenedlaethol ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo.

**Adroddiad methodoleg**

1.12 Mae Adroddiad Methodoleg Camau 3 a 4 yn darparu rhagor o fanylion am ddyluniad yr arolwg, gan gynnwys nodweddion demograffig yr arolwg sampl o'u cymharu â data Cyfrifiad 2021 a setiau data cenedlaethol.

**Dull adrodd a strwythur**

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r allbynnau allweddol o'r bedwaredd o chwe cham arfaethedig yr arolwg. O'r herwydd, mae'r allbynnau yn dangos y sefyllfa bresennol, a mynegir unrhyw wahaniaethau nodedig mewn ymatebion wrth ddadansoddi'r sampl. Nid yw'r adroddiad yn manylu ar yr ymatebion i bob cwestiwn, ond mae'n cyflwyno crynodeb lefel uchel o'r allbynnau allweddol.

1.14 Ymatebion heb eu pwysoli y mae'r holl allbynnau yn eu dangos ac felly ni ellir eu cymryd yn ystadegol i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, ond ar y cyd, mae'r ymatebwyr yn cynrychioli'r boblogaeth honno yn fras yn ôl newidynnau demograffig allweddol.

1.15 Er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch ansawdd data, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gyfyngiadau y canlyniadau a dynnir o feintiau sylfaen bach. Cynhwysir amcangyfrifon sy'n seiliedig ar lai na 30 o ymatebwyr yn y tablau ond dylid eu dehongli yn ofalus, oherwydd bod samplau bach o'r fath yn gallu cynhyrchu

canrannau ansefydlog efallai nad ydynt yn adlewyrchu patrymau ehangach. Yn dilyn confensiwn ystadegol a ddefnyddir yn gyffredin[1], adroddir canlyniadau is-grwpiau sydd â seiliau o dan 30 ond fe'u nodir yn y tablau, ac ni ddylid eu gorddehongli.

1.16 Cynhwysir dadansoddiad o ddata demograffig cam 4, sy'n nodi'r perthnasoedd rhwng y gwahanol nodweddion demograffig yn Atodiad A – Data demograffig cam 4. Mae'r atodiad yn cynnwys yr allbwn canlynol:

- oedran yn ôl gwryw a benyw
- oedran yn ôl math o ardal
- galwedigaeth yn ôl math o ardal
- incwm ac oedran
- incwm a math o ardal
- galwedigaeth ac incwm
- deiliadaeth a math o ardal
- deiliadaeth ac incwm

1.17 Mae'r allbynnau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ganlyniad i ddadansoddiad deunewidyn o ymatebion yr arolwg.

1.18 Roedd y dadansoddiad yn cynnwys grwpio'r ymddygiadau mewn adrannau ynni cartref, bwyd, bywyd bob dydd, a theithio yr arolwg yn ôl eu heffaith carbon (effaith uwch o'i chymharu ag effaith is). Ceir esboniad o'r categorïau hyn ym mhob adran berthnasol o'r adroddiad.

1.19 Mae'r camau wedi eu trefnu i aryneilio'r gwaith maes rhwng haf a gaeaf, er mwyn cipio unrhyw wahaniaethau tymhorol posibl mewn ymatebion. Mae Adroddiad Cymharu'r Cam 4 yn dangos newidiadau mewn agweddau ac ymatebion ymddygiadol ar draws y 4 cam gyntaf.

1.20 Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn.

- Adran 2 – Canfyddiadau ac agweddau
- Adran 3 – Ynglŷn â'ch cartref

[1] Kwak SG, Kim JH. Central limit theorem: the cornerstone of modern statistics. *Korean J Anesthesiol*. 2017;70(2):144-156. PubMed

- Adran 4 – Bwyd
- Adran 5 – Bywyd bob dydd
- Adran 6 – Teithio
- Adran 7 – Casgliadau

## 2. Canfyddiadau ac agweddau

2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn trafod safbwyntiau ymatebwyr ar newid hinsawdd.

### Achosion newid hinsawdd

2.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oeddent yn credu sy'n achosi newid hinsawdd. Dywedodd 43% o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgarwch dynol yn bennaf, a dywedodd 13% eu bod yn credu mai gweithgarwch dynol yn gyfan gwbl sy'n ei achosi (Tabl 2.1). Dim ond 3% a ddywedodd nad ydynt yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd, a dywedodd 6% eu bod yn credu mai prosesau naturiol yn gyfan gwbl sy'n ei achosi.

**Tabl 2.1 – Ymateb i 'Beth ydych chi'n credu sy'n achosi newid hinsawdd?'**

| Pryder | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd | 3% |
| Prosesau naturiol yn gyfan gwbl | 6% |
| Prosesau naturiol yn bennaf (ond mae gweithgarwch dynol yn cyfrannu hefyd) | 15% |
| Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol | 21% |
| Gweithgarwch dynol yn bennaf (ond mae prosesau naturiol yn cyfrannu hefyd) | 43% |
| Gweithgarwch dynol yn gyfan gwbl | 13% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmlDdewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio. Sylfaen = 958

### Pryder am newid hinsawdd

2.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio ar raddfa o 1 i 10 (1 = ddim difrifol, 10 = eithriadol o ddifrifol) a oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol ar hyn o bryd. Dewisodd 32% o'r ymatebwyr 9 neu 10, a dewisodd 78% ohonynt 6 neu uwch (Tabl 2.2). Dim ond 7% o'r ymatebwyr a ddewisodd 1 neu 2.

**Tabl 2.2 –Ymateb i 'I ba raddau ydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?'**

| Pryder | **Cyfanswm** |
|---|---|
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 7% |
| 3-5 | 15% |
| 6-8 | 46% |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 32% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmlDdewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio. Sylfaen = 965

2.4 Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa mor bryderus oeddent am newid hinsawdd yn bersonol. Dywedodd 22% o’r ymatebwyr eu bod yn bryderus iawn am newid hinsawdd, dywedodd 47% eu bod yn eithaf pryderus, dywedodd 19% nad oeddent yn bryderus iawn, a dywedodd 12% nad oeddent yn bryderus o gwbl (Tabl 2.3).

**Tabl 2.3 – Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd yn bersonol?’**

| Pryder | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Ddim yn pryderu o gwbl | 12% |
| Ddim yn bryderus iawn | 19% |
| Eithaf pryderus | 47% |
| Pryderus iawn | 22% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae ‘Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ wedi eu heithrio. Sylfaen = 954

2.5 Mae cyfuno’r categorïau ymateb ‘pryderus iawn / eithaf pryderus’ a ‘ddim yn bryderus iawn / ddim yn pryderu o gwbl’ yn darparu allbwn symlach. Yna, dadansoddwyd ymatebion yn ôl oedran. Dywedodd y mwyafrif o’r ymatebwyr ar draws pob categori oedran eu bod yn ‘eithaf pryderus’ neu’n ‘bryderus iawn’ am newid hinsawdd yn bersonol. Roedd nifer yr ymatebwyr yn y categori oedran 65+ a ddywedodd nad oeddent yn bryderus iawn neu nad oeddent yn pryderu o gwbl ychydig yn uwch (35%) na’r categorïau oedran eraill, ac roedd nifer y bobl 65+ a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn neu’n eithaf pryderus yn is na’r categorïau oedran eraill (65%) (Tabl 2.4). Gallai hyn awgrymu lefelau is o bryder personol ymhlith y grŵp oedran hwn.

**Tabl 2.4 – Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd yn bersonol?’**

| Pryder | **Cyfanswm** | **18 i 34** | **35 i 44** | **45 i 54** | **55 i 64** | **65+** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 31% | 27% | 33% | 29% | 30% | 35% |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 69% | 73% | 67% | 71% | 70% | 65% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ wedi eu heithrio. Sylfaen = 949 (18 i 34 = 205, 35 i 44 = 166, 45 i 54 = 160, 55 i 64 = 182, 65+ = 236)

**Cyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd**

2.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor gyfrifol yw grwpiau penodol am fynd i'r afael â newid hinsawdd. Y cyhoedd, y gymuned leol, y cyngor lleol, busnesau, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a gwledydd y tu allan i'r DU oedd y grwpiau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am bob grŵp, a oeddent yn gyfrifol iawn, yn gyfrifol i raddau, ddim yn gyfrifol iawn neu ddim yn gyfrifol o gwbl.

2.7 Mae cyfuno'r categorïau ymateb yn gyfrifol iawn / cyfrifol i raddau, a ddim yn gyfrifol iawn / ddim yn gyfrifol o gwbl yn darparu allbwn symlach.

2.8 Yna gellir cymharu cyfran yr ymatebion cyfrifol iawn / cyfrifol i raddau rhwng grwpiau (Tabl 2.5). Dywedodd cyfran is o'r ymatebwyr fod eu cymuned leol (68%) a'r cyhoedd (73%) yn gyfrifol iawn neu'n gyfrifol i raddau am fynd i'r afael â newid hinsawdd o'u cymharu â busnesau (83%), Llywodraeth Cymru (84%), gwledydd y tu allan i'r DU (86%), a Llywodraeth y DU (87%).

2.9 Roedd cyfran yr ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed a ddywedodd fod y cyhoedd (78%) a'r gymuned leol (72%) yn 'gyfrifol iawn / cyfrifol i raddau' am fynd i'r afael â newid hinsawdd yn uwch na'r hyn ar gyfer pob grŵp oedran arall. Yn gyffredinol, adroddodd y grŵp oedran 18-34 'yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau' am fynd i'r afael â newid hinsawdd yn amlach ar draws pob grŵp. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymatebwyr iau o'r farn bod gan bob grŵp gyfrifoldeb i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

**Tabl 2.5 – Ymateb 'yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau' i – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?' yn ôl oedran.**

| Grŵp | Cyfanswm | 18 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoedd yn gyffredinol | 73% | 78% | 71% | 72% | 70% | 71% |
| Cymuned leol | 68% | 72% | 69% | 70% | 67% | 61% |
| Eich cyngor | 79% | 83% | 81% | 78% | 76% | 75% |
| Busnesau | 83% | 88% | 84% | 81% | 84% | 79% |
| Llywodraeth Cymru | 84% | 88% | 84% | 83% | 83% | 79% |
| Llywodraeth y DU | 87% | 89% | 87% | 85% | 89% | 82% |
| Gwledydd y tu allan i'r DU | 86% | 90% | 86% | 85% | 88% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 936 - 954 (ar gyfer pob ymatebydd, mae'r niferoedd yn amrywio o ganlyniad i eithrio 'Ddim yn Gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud')

2.10 Yn ôl math yr ardal, roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach o'r farn mai'r cyhoedd (80%) oedd yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau am fynd i'r afael â newid hinsawdd, o'u cymharu ag ymatebwyr o fathau eraill o ardaloedd (69-74%) (Tabl 2.6). Mewn cyferbyniad, roedd cyfran is o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach o'r farn mai gwledydd y tu allan i'r DU (80%) oedd yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau am fynd i'r afael â newid hinsawdd, o'u cymharu ag ymatebwyr o fathau eraill o ardaloedd (86-90%).

**Tabl 2.6 – Ymateb 'yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau' i - 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?' yn ôl math yr ardal.**

| Grŵp | **Cyfanswm** | **Canol dinas neu dref fawr** | **Maestrefi dinas neu dref fawr** | **Pentref mawr neu dref fach** | **Cefn gwlad neu bentref bach** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoedd yn gyffredinol | 73% | 74% | 72% | 69% | 80% |
| Cymuned leol | 68% | 75% | 65% | 66% | 73% |
| Eich cyngor | 79% | 80% | 81% | 76% | 81% |
| Busnesau | 83% | 85% | 83% | 85% | 79% |
| Llywodraeth Cymru | 84% | 84% | 84% | 83% | 83% |
| Llywodraeth y DU | 87% | 86% | 86% | 88% | 84% |
| Gwledydd y tu allan i'r DU | 86% | 90% | 86% | 88% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Gweithredoedd Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 922 - 938 (ar gyfer pob ymatebydd, mae'r niferoedd yn amrywio o ganlyniad i eithrio 'Ddim yn Gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud')

### Camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd

2.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oedd y grwpiau yn cymryd camau i atal newid hinsawdd.


2.12 Ar draws pob grŵp, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai eu bod yn credu bod 'rhywfaint o gamau a gymerir, ond y gellid gwneud mwy' neu nad ydynt yn credu bod llawer o gamau a gymerir (85-93%). Ar draws pob grŵp, dim ond lleiafrif bach o'r ymatebwyr oedd yn credu bod 'llawer o gamau' a gymerir i fynd i'r afael â newid hinsawdd (7-12%) (Ffigur 2.1). Y tri grŵp y dywedodd y gyfran uchaf o'r

ymatebwyr eu bod yn cymryd llawer o gamau oedd y gymuned leol (12%), Llywodraeth Cymru (12%) a Llywodraeth y DU (12%).

2.13 'Gwledydd y tu allan i'r DU' yw'r unig grŵp y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad ydynt yn credu eu bod yn cymryd llawer o gamau (51%).

2.14 Y grwpiau eraill y dywedodd yr ymatebwyr yn fwyaf cyffredin nad ydynt yn credu eu bod yn cymryd llawer o gamau oedd busnesau (43%) a'r gymuned leol (39%).

**Ffigur 2.1 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.1: siart golofn sy'n dangos i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu y mae grwpiau penodol yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd.


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen - Y cyhoedd = 929, Y gymuned leol = 867, Eich cyngor = 919, Busnesau = 899, Llywodraeth Cymru = 915, Llywodraeth y DU = 927, Gwledydd y tu allan i'r DU = 868.

### Cyfrifoldeb personol a chamau gweithredu

2.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio rhwng 1 (ddim o gwbl) a 10 (i raddau helaeth) a oeddent yn teimlo cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo cyfrifoldeb mawr. Rhoddodd 64% o'r ymatebwyr sgôr rhwng 6 a 10, a rhoddodd 22% ohonynt sgôr rhwng 9 a 10

(Ffigur 2.2). Dim ond 13% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo cyfrifoldeb isel (sgôr o 1 a 2).

**Ffigur 2.2 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**





Disgrifiad o Ffigur 2.2: siart golofn sy'n dangos i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi ei eithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 996

2.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio rhwng 1 (ddim o gwbl) a 10 (i raddau helaeth) a oeddent yn teimlo y gallai eu camau personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod y rhai a roddodd sgôr rhwng 6 a 10 yn teimlo y gallai eu camau gweithredu atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, dywedodd 48% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallai eu camau atal newid hinsawdd rhag gwaethygu; rhoddodd 35% sgôr rhwng 6 ac 8, a rhoddodd 13% sgôr o 9 neu 10 (Ffigur 2.3).

2.17 Rhoddodd 23% sgôr o 1 neu 2, a'r rhagdybiaeth yw bod yr ymatebwyr hyn yn teimlo'n gryf na allai eu camau atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

**Ffigur 2.3 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich camau personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**





Disgrifiad o Ffigur 2.3: siart golofn sy'n dangos i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu y gallai eu camau personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi ei eithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 996

2.18 Mae cymhariaeth o'r ymatebion i'r cwestiwn ynghylch cyfrifoldeb personol a chred ynghylch camau personol yn dangos anghysondeb rhwng y graddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, a'r graddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu camau personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd 22% eu bod yn teimlo cyfrifoldeb mawr (sgôr o 9 a 10), ond dim ond 13% a ddywedodd eu bod yn teimlo'n gryf (sgôr o 9 a 10) y gallai eu camau atal newid hinsawdd rhag gwaethygu (Ffigur 2.4).

**Ffigur 2.4 – Ymateb i – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?' ac 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich camau personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.4: siart golofn sy'n dangos i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, ac i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi ei eithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 996

### Gwybodaeth

2.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu gwybodaeth am Sero Net. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (67%) eu bod yn gwybod ychydig neu gryn dipyn am Sero Net. Dywedodd 20% o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod dim am Sero Net (Tabl 2.7).

2.20 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu gwybodaeth am Ymaddasu ar gyfer Newid Hinsawdd. Dywedodd 27% nad oeddent yn gwybod dim. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (63%) eu bod yn gwybod ychydig neu gryn dipyn am Ymaddasu ar gyfer Newid Hinsawdd (Tabl 2.7).

2.21 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu gwybodaeth am yr Argyfwng Natur. Dywedodd 25% nad oeddent yn gwybod dim a dywedodd 63% eu bod yn gwybod ychydig neu gryn dipyn am yr Argyfwng Natur (Tabl 2.7).

**Tabl 2.7 – Ymateb i – 'Faint ydych chi'n ei wybod am y canlynol?'**

| Ymateb | Sero Net* | Addasu i'r Hinsawdd* | Argyfwng Natur* |
|---|---|---|---|
| Dw i ddim yn gwybod dim | 20% | 27% | 25% |
| Rwy'n gwybod ychydig | 40% | 39% | 41% |
| Rwy'n gwybod cryn dipyn | 27% | 24% | 22% |
| Rwy'n gwybod llawer | 12% | 9% | 10% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% |


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd, yn ddieithriad. Sylfaen = 1,001

*Darparwyd diffiniadau o bob term i'r ymatebwyr

### Tywydd eithafol

2.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi profi unrhyw effaith tywydd eithafol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Nid oedd 47% o'r ymatebwyr wedi profi unrhyw effeithiau tywydd eithafol; roedd 35% o'r ymatebwyr wedi profi anawsterau wrth deithio ac roedd 25% o'r ymatebwyr wedi profi llifogydd yn eu hardal (Ffigur 2.5). Gallai ymatebwyr ddewis sawl opsiwn wrth gwblhau'r arolwg.

**Ffigur 2.5 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r canlynol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.5: siart bar sy'n dangos a oedd ymatebwyr wedi profi unrhyw effeithiau tywydd eithafol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ wedi eu heithrio o’r siart. Sylfaen = 1,001

**Canfyddiadau ac Agweddau: Crynodeb**

2.23 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar newid hinsawdd.

2.24 Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno mai gweithgarwch dynol oedd prif achos newid hinsawdd, yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ac yn pryderu am hyn. Roedd nifer y bobl yn y categori oedran 65+ a ddywedodd nad oeddent yn bryderus iawn / ddim yn pryderu o gwbl ychydig yn uwch (35%) na’r categorïau oedran eraill. Gallai hyn awgrymu lefelau is o bryder personol ymhlith y grŵp oedran hwn.

2.25 Rhoddodd ymatebwyr iau lefelau uwch o gyfrifoldeb ar draws y mwyafrif o’r grwpiau cymdeithasol o’u cymharu â grwpiau oedran eraill. Yn gyffredinol, adroddodd y grŵp oedran 18-34 ‘yn gyfrifol iawn / yn gyfrifol i raddau’ am fynd i’r afael â newid hinsawdd yn amlach ar draws pob grŵp. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymatebwyr iau o’r farn bod gan bob grŵp gyfrifoldeb i fynd i’r afael â newid hinsawdd

2.26 Roedd ymatebwyr o’r farn, ymhlith yr holl grwpiau, mai busnesau a gwledydd y tu allan i’r DU oedd yn cymryd y camau lleiaf i fynd i’r afael â newid hinsawdd.

2.27 Dangosodd yr ymatebion fwlch rhwng y graddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, a’r graddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu camau personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

2.28 Dywedodd cyfran fawr o’r ymatebwyr eu bod yn gwybod ‘ychydig’ neu ‘gryn dipyn’ am bynciau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd. Roedd gan yr ymatebwyr lai o wybodaeth am Ymaddasu ar gyfer Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur nag oedd ganddynt am Sero Net ar draws y tri maes; roedd ychydig yn teimlo eu bod yn gwybod llawer am bob pwnc.

# 3. Ynglŷn â'ch cartref

3.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y defnydd o ynni yn eu cartref a'r camau arbed ynni a defnyddid.

**Defnyddio ynni**

3.2 Nododd 66% o'r ymatebwyr fod ganddynt fesurydd clyfar ar eu haelwyd. Fodd bynnag, dim ond 40% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio eu mesurydd clyfar (Tabl 3.1). Dywedodd 29% o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt fesurydd clyfar.

**Tabl 3.1 – Ymateb i – 'Oes gennych chi fesurydd clyfar yn eich cartref?'**

| Dull Talu | Cyfanswm |
|---|---|
| Mae gen i fesurydd clyfar ac rwy'n defnyddio'r dangosydd yn y cartref | 40% |
| Mae gen i fesurydd clyfar ond nid wyf yn defnyddio'r dangosydd yn y cartref | 14% |
| Mae gen i fesurydd clyfar ond nid yw'r dangosydd yn y cartref yn gweithio | 12% |
| Nid oes gen i fesurydd clyfar | 29% |
| Ddim yn gwybod | 3% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Cynhwysir 'Ddim yn gwybod', 'Mae'n well gen i beidio â dweud' ac 'Arall' yn y 'Cyfanswm' ymatebion. Sylfaen = 1,001

**Camau arbed ynni**

3.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent wedi cymryd unrhyw un o'r camau / gweithredoedd a restrir i arbed yr ynni a ddefnyddir.

3.4 Cafodd y camau arbed ynni eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith ar y nod o leihau allyriadau carbon. Mae'r ymddygiadau effaith uwch yn tueddu i gael effaith uniongyrchol ar wresogi a dŵr poeth, sef y defnyddwyr mwyaf o ynni cartref. Ar gyfartaledd, mae gwresogi'r cartref yn cyfrif am 61% o'r ynni a ddefnyddir yn y cartref, ac mae dŵr poeth yn cyfrif am 17% o'r ynni a ddefnyddir yn y cartref[23]. Ystyrir sychu dillad y tu allan neu ar hors ddillad yn y categori effaith uwch hefyd oherwydd bod hyn yn lleihau'r defnydd o beiriant sychu dillad. Peiriannau sychu dillad yw un o'r mathau o offer cartref sydd fwyaf dwys o ran ynni, a dim ond

[2] Sut y mae gwahanol aelwydydd yn defnyddio ynni a faint y mae'n ei gostio iddynt Nesta
[3] Energy consumption in the UK 2024, Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net Energy consumption in the UK 2024 - GOV.UK

cawodydd trydan sy'n defnyddio mwy o ynni na pheiriannau sychu dillad[4]. O'r herwydd, gall lleihau'r ymddygiadau hyn gael effaith uchel ar allyriadau carbon.

3.5 Mae'r ymddygiadau effaith is yn tueddu i gael effeithiau mwy cymedrol ar yr ynni a ddefnyddir yn y cartref, er enghraifft drwy leihau'r angen am wresogi yn anuniongyrchol drwy ganiatáu i olau yr haul ddod i mewn. Yr ymddygiad arbed ynni mwyaf cyffredin yw diffodd goleuadau nad ydynt yn cael eu defnyddio, ond dim ond am 3% o'r defnydd o ynni yn y cartref y mae goleuadau yn cyfrif[23]. Ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio neu sydd ar y modd segur, mae'r defnydd o bŵer yn gymharol fach[5] ond gall gronni os oes sawl dyfais sy'n segur am amser hir. Mae'n bwysig nodi y gall camau 'effaith is' gael effaith fawr o hyd wrth eu cynnal yn aml dros gyfnod hir.

3.6 Roedd wyth gweithred effaith is a chwe gweithred effaith uwch. 4.6 (o 8) oedd nifer cyfartalog y camau effaith is a gymerwyd fesul ymatebydd, o'i gymharu â 2.4 (o 6) ar gyfer y camau effaith uwch.


3.7 O'r camau effaith is, y rhai mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd diffodd y goleuadau (roedd 79% o'r ymatebwyr yn gwneud hyn), a ddilynwyd gan wisgo dillad cynhesach (65%) (Ffigur 3.1).

3.8 O'r camau gweithredu effaith uwch, y rhai mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd sychu dillad y tu allan neu ar hors ddillad (61%), a ddilynwyd gan ostwng y thermostat (56%).

3.9 Y camau lleiaf cyffredin a gymerwyd oedd yr holl gamau gweithredu effaith uwch. Troi tymheredd y dŵr poeth i lawr (34%), gostwng tymheredd llif y boeler (32%) a diffodd y dewis cynhesu ymlaen llaw ar foeler combi (17%).

[4] Energy Guide Which Appliances Use The Most Electricity? (2025)
[5] Framework for Phantom Load Management, Feasibility Report, Imperial College London

**Ffigur 3.1 – Ymatebion i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?'**




Disgrifiad o Ffigur 3.1: siart far sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau arbed ynni ar yr aelwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmlDdewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni. Sylfaen = 1,001

3.10 Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl incwm yr aelwyd, ymhlith y rhai yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan incwm eu haelwyd, fod cyfran is yn defnyddio camau arbed ynni o'u cymharu â'r rhai a nododd incwm eu haelwyd.

3.11 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan incwm eu haelwyd oedd 1.6 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 3.4 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 3.2). Roedd nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddatganodd incwm eu

haelwyd rhwng 2.4 a 2.8 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a rhwng 4.6 a 5.2 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is.

**Tabl 3.2 – Ymateb yn ôl incwm yr aelwyd i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?'**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 8) |
|---|---|---|
| Hyd at £19,999 | 2.7 | 4.7 |
| £20,000 i £49,999 | 2.4 | 4.6 |
| £50,000+ | 2.8 | 5.2 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1.6 | 3.4 |
| Cyfanswm | 2.4 | 4.6 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni; eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o'r ymateb incwm Aelwyd. *Sylfaen = 891 (Hyd at £19,999 = 172, £20,000–£49,999 = 427, £50,000+ = 206, Mae'n well gen i beidio â dweud = 155)*.

3.12 Mae cymharu'r camau arbed ynni ag ymateb yr ymatebwyr i'r hyn yr oeddent yn credu sy'n achosi newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol yn ymgymryd â nifer uwch o gamau gweithredu na'r holl ymatebwyr eraill.

3.13 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol oedd 2.7 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 5.1 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 3.3). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan brosesau naturiol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 2.3 ar gyfer effaith uwch, a 4.2 ar gyfer effaith is.

**Tabl 3.3 – Ymateb yn ôl incwm yr aelwyd i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?'**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 8) |
|---|---|---|
| Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd | 1.5* | 3.0* |
| Yn gyfan gwbl/yn bennaf gan brosesau naturiol | 2.3 | 4.0 |
| Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol | 2.1 | 4.2 |
| Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol | 2.7 | 5.1 |
| Cyfanswm | 2.4 | 4.6 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni. Sylfaen = 958 (Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd = 24, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan brosesau naturiol = 198, Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol = 201, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol = 535)

* Maint sylfaen llai na 30 o ymatebwyr. Dylid dehongli'r canlyniadau yn ofalus.

3.14 Mae cymharu'r camau arbed ynni ag ymateb yr ymatebwyr i'r graddau yr oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol yn cymryd mwy o gamau na'r rhai a oedd yn credu nad oedd yn broblem ddifrifol.

3.15 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol oedd 3.0 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 5.6 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 3.4). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod nad yw newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 1.7 ar gyfer effaith uwch, a 3.1 ar gyfer effaith is.

**Tabl 3.4 – Ymateb yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?'**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 8) |
|---|---|---|
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 1.7 | 3.1 |
| 3-5 | 2.1 | 4.1 |
| 6-8 | 2.2 | 4.3 |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 3.0 | 5.6 |
| Cyfanswm | 2.4 | 4.6 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn

gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni. Sylfaen = 965 (9-10 Eithriadol o ddifrifol = 305, 6-8 = 442, 3-5 = 147, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 71)

3.16 Mae cymharu'r camau arbed ynni ag ymateb yr ymatebwyr i'r graddau yr oeddent yn pryderu am newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus 'iawn' neu'n 'eithaf' pryderus am newid hinsawdd yn cymryd mwy o gamau na'r rhai nad oedd yn bryderus iawn neu nad oedd yn pryderu o gwbl.

3.17 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'bryderus iawn' neu'n 'eithaf pryderus' oedd 2.6 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 5.0 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 3.5). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn 'bryderus iawn' neu nad oeddent yn pryderu 'o gwbl' am newid hinsawdd, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 2.0 ar gyfer effaith uwch, a 3.9 ar gyfer effaith is.

**Tabl 3.5 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?' o'i gymharu â phryder am newid hinsawdd.**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 8) |
|---|---|---|
| Ddim yn Bryderus Iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 2.0 | 3.9 |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 2.6 | 5.0 |
| Cyfanswm | 2.4 | 4.6 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni; eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o'r ymateb incwm Aelwyd. Sylfaen = 954 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl = 295, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 659).

### Effeithlonrwydd ynni

3.18 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa fesurau effeithlonrwydd ynni oedd ganddynt yn eu cartref.

3.19 Y mesurau effeithlonrwydd ynni mwyaf cyffredin oedd bylbiau golau sy'n arbed ynni (64%) a phennau cawod sy'n effeithlon o ran dŵr (19%).


3.20 Y mesurau ynni lleiaf cyffredin oedd switshys amseru ar oleuadau (7%) a ffilmiau ffenestr solar neu wres (2%).

3.21 Roedd cyfran uwch o ymatebwyr a chanddynt incwm aelwyd o £50,000 neu uwch a oedd wedi mabwysiadu'r holl fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartref o'u cymharu ag ymatebwyr ag incwm aelwyd is. Er enghraifft, roedd gan 18% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd yn £50,000 neu uwch wresogi clyfar, o'u cymharu â 10% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd yn y grŵp hyd at £19,999 (Ffigur 3.2). Yn

yr un modd, roedd gan 19% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd yn £50,000 neu uwch oleuadau clyfar, o'u cymharu ag 8% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd yn y grŵp hyd at £19,999.

3.22 Roedd ymatebwyr ag incwm aelwyd is yn fwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mesurau arbed ynni o'u cymharu â'r ymatebwyr sydd â'r incwm aelwydydd uchaf. Dywedodd 24% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn y grŵp hyd at £19,999 nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mesurau o'u cymharu â 15% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu uwch.

**Ffigur 3.2 – Ymateb yn ôl incwm yr aelwyd i – 'Isod, mae rhestr o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Os oes, pa rai sydd gennych chi yn eich cartref?'**




Disgrifiad o Ffigur 3.2: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl incwm yr aelwyd gyda mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu Ynni; eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o'r ymateb incwm Aelwyd. Sylfaen = 960 (Hyd at £19,999 = 172, £20,000–£49,999 = 427, £50,000+ = 206, Mae'n well gen i beidio â dweud = 155)

### Ynglŷn ag ynni eich cartref Crynodeb

3.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y defnydd o ynni yn eu cartref a'r mesurau arbed ynni a defnyddid.

3.24 Nododd 66% o'r ymatebwyr fod ganddynt fesurydd clyfar ar eu haelwyd, ond dim ond 40% oedd yn ei ddefnyddio yn rheolaidd.

3.25 Mae ymatebwyr sy'n credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n llwyr neu'n rhannol gan weithgarwch dynol, yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, ac maent yn poeni am newid hinsawdd ac yn cynnal mwy o gamau arbed ynni na'r ymatebwyr eraill.

3.26 Roedd gan gyfran uwch o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartref na'r rhai sydd ag incwm aelwyd is, yn enwedig mesurau goleuadau a gwresogi clyfar.

# 4. Bwyd

4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu defnydd personol, a defnydd eu haelwyd, o fwyd.

**Deiet**

4.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn defnyddio cynhyrchion llaeth, cig coch, cig gwyn, pysgod / bwyd môr, a ffrwythau a llysiau. Roedd yr ymatebwyr yn defnyddio ffrwythau a llysiau (95% o leiaf unwaith yr wythnos) a chynhyrchion llaeth (92% o leiaf unwaith yr wythnos) yn amlach na chig gwyn (83% o leiaf unwaith yr wythnos), cig coch (65% o leiaf unwaith yr wythnos) a physgod/bwyd môr (60% o leiaf unwaith yr wythnos) (Tabl 4.1). Y mathau mwyaf cyffredin o fwyd nad oeddent byth yn cael eu bwyta oedd pysgod/bwyd môr (14% o'r ymatebwyr) a chig coch (12% o'r ymatebwyr).

**Tabl 4.1 – Ymateb i – 'Ar sawl diwrnod yr wythnos ydych chi'n arfer bwyta pob un o'r canlynol?'**

| Amledd | Llaeth | Cig Coch | Cig Gwyn | Pysgod / Bwyd Môr | Ffrwythau / Llysiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Bob dydd | 62% | 4% | 5% | 1% | 54% |
| 5 i 6 diwrnod yr wythnos | 14% | 8% | 13% | 6% | 17% |
| 3 i 4 diwrnod yr wythnos | 11% | 19% | 37% | 14% | 16% |
| 1 i 2 ddiwrnod yr wythnos | 5% | 35% | 29% | 38% | 7% |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 3% | 20% | 7% | 24% | 3% |
| Byth | 2% | 12% | 8% | 14% | 0% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd, yn ddieithriad. Sylfaen = 1,001

4.3 Bydd lleihau'r defnydd o gig coch, cig gwyn a chynhyrchion llaeth, dewis ffynonellau cynaliadwy o bysgod / bwyd môr, a chynyddu'r defnydd o ffrwythau a llysiau yn cael effaith gadarnhaol ar newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon[6].

4.4 Gellir dosbarthu'r newidiadau hyn i gamau dietegol yn seiliedig ar eu heffaith ar leihau allyriadau carbon. Mae effaith y camau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar ba mor ddwys o ran adnoddau a thrwm o ran carbon yw'r broses o gynhyrchu'r bwyd,

[6] Hannah Ritchie (2020) - "The carbon footprint of foods: are differences explained by the impacts of methane?" Our World in Data

yn enwedig o ran ôl troed carbon cynhyrchion sy'n seiliedig ar anifeiliaid o'i gymharu â bwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion.

4.5 Fel arfer, mae lleihad yn y defnydd o gig coch, cynhyrchion llaeth a chig gwyn yn cael effaith uwch neu ganolig-uchel (cig gwyn) ar leihau allyriadau carbon.

4.6 Yn nodweddiadol, mae lleihad yn y defnydd o bysgod neu fwyd môr yn cael effaith is ar allyriadau carbon. Mae hyn oherwydd, yn gyffredinol, fod pysgod a bwyd môr yn llai dwys o ran carbon na phroteinau anifeiliaid eraill, ond mae amrywiaeth yn yr effaith gan ddibynnu ar y math o bysgod a bwyd môr[7].

4.7 Yn nodweddiadol, mae cynnydd yn y defnydd o ffrwythau a llysiau yn cael effaith is ar allyriadau carbon oherwydd nad yw'n nodi'n uniongyrchol leihad yn y defnydd o fwydydd sy'n ddwys o ran carbon.

4.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi gwneud unrhyw un o'r pum newid i'w deiet. Y newidiadau oedd lleihad mewn cynhyrchion llaeth, cig coch, cig gwyn a physgod, a chynnydd mewn ffrwythau a llysiau.

4.9 Y newidiadau deiet y dywedodd y nifer mwyaf o ymatebwyr eu bod wedi eu gwneud oedd lleihau eu defnydd o gig coch (37%) a bwyta rhagor o ffrwythau a llysiau (34%) (Tabl 4.2).

4.10 O'r ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd 'yn broblem eithriadol o ddifrifol', roedd cyfran uwch ohonynt wedi gwneud newidiadau i'w deiet o'u cymharu â'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn credu nad oedd newid hinsawdd 'yn broblem ddifrifol'.

4.11 O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn credu bod newid hinsawdd 'yn broblem eithriadol o ddifrifol', dywedodd 53% eu bod wedi lleihau eu defnydd o gig coch, o'u cymharu â 10% o'r ymatebwyr a oedd yn credu nad oedd newid hinsawdd yn broblem ddifrifol (Tabl 4.2).

[7] Gall bwyta bwyd môr leihau eich ôl troed carbon, ond mae rhai pysgod yn well nag eraill Oceana.

**Tabl 4.2 – Ymateb yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem i – 'Ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol i'ch deiet?'**

| | Effaith uwch | | Canolig – Uchel | Effaith is | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | **Lleihau Cynhyrchion Llaeth** | **Lleihau Cig Coch** | **Lleihau Cig Gwyn** | **Lleihau Pysgod / Bwyd Môr** | **Cynyddu Ffrwythau / Llysiau** |
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 7% | 10% | 0% | 3% | 8% |
| 3-5 | 13% | 25% | 11% | 10% | 24% |
| 6-8 | 21% | 33% | 14% | 12% | 31% |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 32% | 53% | 31% | 25% | 50% |
| Cyfanswm | 22% | 37% | 18% | 15% | 34% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb ynghylch newid hinsawdd fel problem. Sylfaen = 965 (9-10 Eithriadol o ddifrifol = 305, 6-8 = 442, 3-5 = 147, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 71)

4.12 Mae cymharu'r newidiadau deiet â'r lefelau pryder am newid hinsawdd a adroddwyd gan yr ymatebwyr yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn 'bryderus iawn' neu'n 'eithaf pryderus' am newid hinsawdd wedi gwneud mwy o newidiadau deiet na'r rhai nad oedd yn bryderus iawn neu nad oedd yn pryderu o gwbl. O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn / eithaf pryderus am newid hinsawdd, roedd cyfran uwch ohonynt wedi gwneud newidiadau i'w deiet o'u cymharu â'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn pryderu am newid hinsawdd.

4.13 Er enghraifft, o'r ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn / yn eithaf pryderus am newid hinsawdd, roedd 44% wedi lleihau eu defnydd o gig coch, o'u cymharu â 22% o'r ymatebwyr nad oeddent yn bryderus iawn / pryderu o gwbl (Tabl 4.3).

**Tabl 4.3 – Ymateb i – 'Ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol i'ch deiet?' yn ôl pryder am newid hinsawdd**

| | **Effaith Uwch** | | **Canolig – Uchel** | **Effaith is** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | **Lleihau Cynhyrchion Llaeth** | **Lleihau Cig Coch** | **Lleihau Cig Gwyn** | **Lleihau Pysgod / Bwyd Môr** | **Cynyddu Ffrwythau / Llysiau** |
| Ddim yn Bryderus Iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 17% | 22% | 9% | 8% | 25% |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 25% | 44% | 22% | 18% | 39% |
| Cyfanswm | 22% | 37% | 18% | 15% | 34% |


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i

beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb i newid hinsawdd fel problem. Sylfaen = 954 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl = 295, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 659)

### Gwastraff bwyd

4.14 Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oeddent yn taflu bwyd a oedd wedi mynd yn ddrwg neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben, dywedodd 51% o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud hyn o leiaf unwaith yr wythnos, a dim ond 11% a ddywedodd nad ydynt byth yn gwneud hyn. (Ffigur 4.1).

**Ffigur 4.1 – Ymateb i – 'Sawl gwaith mewn wythnos nodweddiadol y mae angen i'ch aelwyd daflu bwyd sydd wedi mynd yn ddrwg neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio olaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 4.1: siart far sy'n dangos pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn taflu bwyd sydd wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio olaf.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb. Sylfaen = 978

### Camau gweithredu cynaliadwy

4.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gamau cynaliadwy yr oeddent yn eu cymryd wrth siopa am fwyd neu goginio prydau.


4.16 Cafodd y camau cynaliadwy eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith ar leihau allyriadau carbon, a chawsant eu categoreiddio yn gamau gweithredu y mae eu heffaith nodweddiadol yn uwch ac is. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn.

4.17 Categoreiddir camau gweithredu fel effaith uwch os ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar systemau bwyd (ei gynhyrchu, ei gludo, ei ddosbarthu a'i fwyta), a chategoreiddir camau gweithredu fel effaith is os ydynt yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â llai o wastraff bwyd, hynny yw, dim ond yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â diwedd oes y bwyd.

4.18 O'r camau cynaliadwy effaith is, y rhai mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd gwirio dyddiadau 'ar ei orau cyn' a 'dyddiad defnyddio olaf' bwyd a brynir (69%), gwirio'r hyn sydd yn yr oergell neu'r rhewgell cyn mynd i siopa (67%) ac ailgynhesu'r bwyd dros ben yn hytrach na'i daflu, neu ddefnyddio bwyd dros ben mewn pryd gwahanol (63%) (Ffigur 4.2).

4.19 O'r camau gweithredu cynaliadwy effaith uwch, y mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd coginio fesul llwyth (43%), prynu bwyd tymhorol yn fwriadol (27%) a phrynu bwyd a dyfir yn lleol yn fwriadol (25%).

**Ffigur 4.2 – Ymateb i – 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?'**





Disgrifiad o Ffigur 4.2: siart far sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau cynaliadwy wrth siopa am fwyd neu goginio prydau.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Sylfaen = 1,001

4.20 Archwiliwyd y camau cynaliadwy ymhellach er mwyn nodi amrywiad yn ôl nodwedd ddemograffig neu sampl. Lleoliad oedd achos yr amrywiad mwyaf nodedig. Ymgymerodd cyfran uwch o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr, neu mewn maestrefi tref neu ddinas fawr ragor o'r camau cynaliadwy o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardaloedd. Roedd y rhain yn cynnwys prynu bwyd tymhorol yn fwriadol (34-38% o'i gymharu â 22-25% yn y ddau fath arall o ardal), cynllunio prydau bwyd ymlaen llaw (54-55% o'u cymharu â 41-43%), defnyddio rhestr siopa (65-67% o'u cymharu â 56-60%), ailgynhesu bwyd

dros ben (74-76% o'u cymharu â 58-60%), a gwirio'r oergell neu'r rhewgell cyn mynd i siopa (70-76% o'i gymharu â 65%) (Ffigur 4.3).

**Ffigur 4.3 – Ymateb i – 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?' yn ôl math yr ardal.**



Disgrifiad o Ffigur 4.3: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau cynaliadwy wrth siopa am fwyd neu goginio prydau yn ôl math yr ardal.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall' a 'Ddim yn gwybod' o'r arferion cynaliadwy a weithredir. Sylfaen = 975 (Maestrefi = 249, Canol = 76, Pentref Mawr = 435, Cefn Gwlad = 215)

4.21 Mae cymharu'r camau cynaliadwy ag ymateb yr ymatebwyr i'r hyn yr oeddent yn credu sy'n achosi newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol yn ymgymryd â nifer uwch o gamau gweithredu na'r holl ymatebwyr eraill.

4.22 Nifer cyfartalog y camau cynaliadwy a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol oedd 1.5 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 4.7 (allan o 7) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 4.4). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan brosesau naturiol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 1.2 ar gyfer effaith uwch, a 4.0 ar gyfer effaith is.

**Tabl 4.4 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?' yn ôl achos newid hinsawdd.**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 7) |
|---|---|---|
| Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd | 1.0* | 3.8* |
| Yn gyfan gwbl/yn bennaf gan brosesau naturiol | 1.2 | 4.0 |
| Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol | 1.2 | 3.7 |
| Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol | 1.5 | 4.7 |
| Cyfanswm | 1.3 | 4.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 902 (Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd = 24, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan brosesau naturiol = 198, Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol = 201, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol = 535)

* Maint sylfaen llai na 30 o ymatebwyr. Dylid dehongli'r canlyniadau yn ofalus.

4.23 Mae cymharu'r arferion cynaliadwy ynni ag ymateb yr ymatebwyr i'r graddau yr oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem 'ddifrifol' yn dilyn mwy o arferion cynaliadwy na'r rhai a oedd yn credu nad oedd yn broblem ddifrifol.

4.24 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol oedd 1.7 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 5.1 (allan o 7) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 4.5). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod nad yw newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 0.9 ar gyfer effaith uwch, a 3.5 ar gyfer effaith is.

**Tabl 4.5 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?' yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem.**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 7) |
|---|---|---|
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 0.9 | 3.5 |
| 3-5 | 0.9 | 3.8 |
| 6-8 | 1.3 | 4.0 |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 1.7 | 5.1 |
| Cyfanswm | 1.3 | 4.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmlDdewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 965 (9-10 Eithriadol o ddifrifol = 305, 6-8 = 442, 3-5 = 147, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 71)

4.25 Mae cymharu'r camau cynaliadwy â'r lefel yr adroddodd yr ymatebwyr eu bod yn pryderu am newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus am newid hinsawdd yn ymgymryd â mwy o gamau cynaliadwy wrth siopa am fwyd a choginio prydau na'r rhai nad ydynt yn bryderus iawn neu nad ydynt yn pryderu o gwbl.

4.26 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'bryderus iawn' neu'n 'eithaf pryderus' oedd 1.5 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 4.5 (allan o 7) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 4.6). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn bryderus iawn neu nad oeddent yn pryderu o gwbl am newid hinsawdd, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 1.0 ar gyfer effaith uwch, a 3.9 ar gyfer effaith is.

**Tabl 4.6 – Ymateb i - ‘Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?’ yn ôl pryderu am newid hinsawdd.**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 7) |
|---|---|---|
| Ddim yn Bryderus Iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 1.0 | 3.9 |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 1.5 | 4.5 |
| Cyfanswm | 1.3 | 4.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd ‘Arall’, ‘Dim un o’r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ o’r ymateb camau Ynni; eithriwyd ‘Ddim yn gwybod’ o’r ymateb incwm Aelwyd. Sylfaen = 954 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl = 295, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 659).

**Bwyd: Crynodeb**

4.27 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu defnydd o fwyd.

4.28 Ffrwythau a Llysiau (95% o leiaf unwaith yr wythnos) a Chynhyrchion llaeth (92% o leiaf unwaith yr wythnos) oedd y math o fwyd a ddefnyddiwyd amlaf gan yr holl ymatebwyr, a chig coch (65% o leiaf unwaith yr wythnos) a physgod/bwyd môr (60% o leiaf unwaith yr wythnos) oedd y mathau o fwyd a ddefnyddiwyd lleiaf aml.

4.29 Roedd y rhai a oedd yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ‘ddifrifol’ a’r rhai a oedd yn ‘eithaf’ pryderus neu’n bryderus ‘iawn’ am newid hinsawdd yn fwy tebygol o wneud newid i’w deiet.

4.30 Dywedodd 51% o’r ymatebwyr eu bod yn taflu bwyd sydd wedi mynd yn ddrwg neu fwyd sydd wedi mynd y tu hwnt i’w ddyddiad dod i ben o leiaf unwaith yr wythnos. Dim ond 11% a ddywedodd nad ydynt byth yn gwneud hyn.

4.31 Gofynnwyd i’r ymatebwyr ynghylch camau cynaliadwy pan fyddant yn siopa am fwyd neu’n coginio prydau. Roedd camau gweithredu ag effaith carbon is megis gwirio ‘dyddiadau defnyddio olaf’ ac ailgynhesu bwyd dros ben yn fwy cyffredin, ond roedd camau effaith uwch megis compostio gwastraff bwyd gartref a phrynu bwyd tymhorol yn llai cyffredin.

4.32 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgarwch dynol, a oedd yn credu ei fod yn broblem ‘ddifrifol’ ac a oedd yn ‘eithaf pryderus’ neu’n ‘bryderus iawn’ amdano, yn fwy tebygol o ymgymryd â chamau gweithredu bwyd cynaliadwy.

## 5. Camau gweithredu ym mywyd bob dydd

5.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gamau cynaliadwy yr oeddent yn eu cymryd yn eu bywyd bob dydd. Cafodd y camau cynaliadwy eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith ar y nod o leihau allyriadau carbon.

5.2 Y camau gweithredu bywyd bob dydd â'r effaith uchaf oedd y rhai a oedd yn lleihau'r angen am y galw am gynhyrchion newydd, gan osgoi'r allyriadau carbon sydd eu hangen i echdynnu a phrosesu deunyddiau crai, ac i gludo cynhyrchion at y defnyddwyr[8]. Felly, yn gyffredinol, mae prynu eitemau ail-law, addasu eitemau at ddibenion gwahanol, atgyweirio pethau, a rhentu/benthyca yn golygu newid tuag at economi cylchol mwy cynaliadwy[9].

5.3 Er eu bod yn dal i leihau allyriadau carbon, nid yw'r camau effaith is yn osgoi creu cynhyrchion newydd.

5.4 O'r camau cynaliadwy effaith uwch, y rhai a gymerwyd yn fwyaf cyffredin oedd rhoi neu werthu eitemau diangen (63%), atgyweirio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (55%), a phrynu eitemau ail-law (51%) (Ffigur 5.1).

5.5 O'r camau cynaliadwy effaith is, y rhai a gymerwyd yn fwyaf cyffredin oedd defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (63%), ailgylchu eitemau diangen (59%) a siopa'n agos at gartref (50%).


5.6 Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau effaith is a chamau effaith uwch.  Mae cyfrannau cymharol debyg o ymatebwyr sy'n ymgymryd â'r camau mwyaf cyffredin ym mhob categori.

---

[8] Reducing and Reusing Basics | US EPA

[9] Astrid Klooster, Blanca C. Bellostas, Marvin Henry, Li Shen Do We Save the Environment by Buying Second-Hand Clothes? The Environmental Impacts of Second-Hand Textile Fashion and the Influence of Consumer Choices Journal of Circular Economy

**Ffigur 5.1 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'**





Disgrifiad o Ffigur 5.1: siart far sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau cynaliadwy yn eu bywyd bob dydd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Mae'n well gen i beidio â dweud' a 'Dim un o'r uchod' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 1,001

5.7 Dangosir yr ymateb yn ôl incwm yn Ffigur 5.2. Ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan incwm eu haelwyd oedd â'r cyfrannau ymateb isaf ar gyfer pob categori ar wahân i ddefnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr â'r incwm aelwyd uchaf (mwy na £50,000) eu bod yn ymgymryd â chamau cynaliadwy o'u cymharu â'r rhai sydd ag incwm aelwyd arall, ac eithrio siopa yn agos at gartref ac addasu eitemau at ddibenion gwahanol.

**Ffigur 5.2 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd' yn ôl incwm yr aelwyd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'**





Disgrifiad o Ffigur 5.2: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau cynaliadwy yn eu bywyd bob dydd ôl incwm yr aelwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o ymateb incwm yr aelwyd. Sylfaen = 960 (Hyd at £19,999 = 172, £20,000–£49,999 = 427, £50,000+ = 206, Mae'n well gen i beidio â dweud = 155)

5.8 Dywedodd cyfran uwch o’r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr, neu ym maestrefi dinas neu dref fawr eu bod yn ymgymryd â chamau cynaliadwy o’u cymharu ag ymatebwyr a oedd yn byw mewn mathau eraill o ardaloedd, ar draws y mwyafrif o’r camau.

**Ffigur 5.3 – Ymateb i - ‘Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd’ yn ôl math yr ardal. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. ‘A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’**




Disgrifiad o Ffigur 5.3: siart bar clystyrog sy’n dangos cyfran yr ymatebwyr sy’n ymgymryd â chamau cynaliadwy yn eu bywyd bob dydd ôl math yr ardal.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i

beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb math o ardal. Sylfaen = 975 (Maestrefi = 249, Canol = 76, Pentref Mawr = 435, Cefn Gwlad = 215)

5.9 Mae cymharu'r camau cynaliadwy ag ymateb yr ymatebwyr i'r hyn yr oeddent yn credu sy'n achosi newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol yn ymgymryd â nifer ychydig yn uwch o gamau gweithredu na'r holl ymatebwyr eraill.

5.10 Nifer yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol oedd 2.6 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch, a 2.6 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 6.7). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan brosesau naturiol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 2.1 ar gyfer effaith uwch, a 1.9 ar gyfer effaith is. Roedd maint sampl yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd yn rhy fach i'w ystyried ar gyfer cymhariaeth.

**Ffigur 5.1 – Ymateb i - 'Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd' yn ôl achos newid hinsawdd. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 5) |
|---|---|---|
| Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd | 1.6* | 1.4* |
| Yn gyfan gwbl/yn bennaf gan brosesau naturiol | 2.1 | 1.9 |
| Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol | 2.2 | 1.9 |
| Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol | 2.6 | 2.6 |
| Cyfanswm | 2.4 | 2.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 958 (Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd = 24, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan brosesau naturiol = 198, Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol = 201, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol = 535)

* Maint sylfaen llai na 30 o ymatebwyr. Dylid dehongli'r canlyniadau yn ofalus.

5.11 Mae cymharu'r camau cynaliadwy ag ymateb yr ymatebwyr i'r graddau yr oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem yn dangos bod yr ymatebwyr a

ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ‘ddifrifol’ yn ymgymryd â mwy o gamau cynaliadwy na’r rhai a oedd yn credu ‘nad oedd yn broblem ddifrifol’.

5.12 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ‘eithriadol o ddifrifol’ oedd 2.9 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 3.0 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Ffigur 5.2). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd bod nad yw newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 1.7 ar gyfer effaith uwch, ac 1.4 ar gyfer effaith is.

**Ffigur 5.2 – Ymateb i - ‘Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd’ yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. ‘A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 5) |
|---|---|---|
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 1.7 | 1.4 |
| 3-5 | 1.9 | 1.7 |
| 6-8 | 2.3 | 2.1 |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 2.9 | 3.0 |
| Cyfanswm | 2.4 | 2.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmlDdewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd ‘Dim un o’r uchod’ ac Mae’n well gen i beidio â dweud’ o’r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 965 (9-10 Eithriadol o ddifrifol = 305, 6-8 = 442, 3-5 = 147, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 71)

5.13 Mae cymharu’r camau cynaliadwy â’r lefel yr adroddodd yr ymatebwyr eu bod yn pryderu am newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn neu’n eithaf pryderus am newid hinsawdd yn ymgymryd â mwy o gamau cynaliadwy na’r rhai nad ydynt yn bryderus iawn neu nad ydynt yn pryderu o gwbl.

5.14 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ‘bryderus iawn’ neu’n ‘eithaf pryderus’ oedd 2.6 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 2.6 (allan o 5) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Ffigur 5.3). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn bryderus iawn neu nad oeddent yn pryderu o gwbl am newid hinsawdd, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is: 2.0 ar gyfer effaith uwch, ac 1.7 ar gyfer effaith is.

**Ffigur 5.3 – Ymateb i - ‘Yn awr, hoffem ofyn i chi am bethau efallai eich bod yn eu gwneud yn eich bywyd bob dydd’ yn ôl pryderu am newid hinsawdd.**

**Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'**

| Ymateb | Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Is (cyfartaledd allan o 7) |
|---|---|---|
| Ddim yn Bryderus Iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 2.0 | 1.7 |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 2.6 | 2.6 |
| Cyfanswm | 2.4 | 2.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Arall', 'Dim un o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 954 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl = 295, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 659).

**Bywyd Bob Dydd: Crynodeb**

5.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gamau cynaliadwy yr oeddent yn eu cymryd yn eu bywyd bob dydd.

5.16 Y tair gweithred mwyaf cyffredin ar gyfer yr holl ymatebwyr oedd rhoi neu werthu eitemau diangen, defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, ac ailgylchu eitemau diangen.

5.17 Ar gyfer bron i bob un o'r camau cynaliadwy, roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch a oedd yn eu cymryd o'u cymharu â'r rhai ag incwm aelwyd is. Ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan incwm eu haelwyd oedd â'r cyfrannau ymateb isaf ar gyfer yr holl gamau cynaliadwy.

5.18 Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr, neu faestrefi dinas neu dref fawr eu bod yn ymgymryd â mwy o gamau cynaliadwy o'u cymharu ag ymatebwyr a oedd yn byw mewn mathau eraill o ardaloedd, ar draws y mwyafrif o'r camau.

5.19 Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi 'yn bennaf neu'n gyfan gwbl gan weithgarwch dynol', a oedd yn credu ei fod yn broblem 'ddifrifol' ac a oedd yn 'eithaf pryderus' neu'n 'bryderus iawn' amdano, eu bod yn ymgymryd â mwy o gamau cynaliadwy nag ymatebwyr eraill.

# 6. Teithio

6.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hymddygiad teithio.

**Argaeledd cerbydau**

6.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o gerbydau yr oedd eu haelwyd yn gallu cael gafael arnynt yn rheolaidd. Roedd 51% o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar un car, roedd 24% o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar ddau gar, ac nid oedd 19% o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar gar.

6.3 Nid oedd 42% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn y grŵp hyd at £19,999 yn gallu cael gafael ar gar, o'u cymharu â 5% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu uwch (Tabl 6.1).

**Tabl 6.1 – Ymateb i – 'Faint o gerbydau mae gan eich aelwyd yn gallu cael gafael arnynt yn rheolaidd?' yn ôl incwm yr aelwyd. Car**

| Nifer y ceir | **Cyfanswm** | **Hyd at £19,999** | **£20,000 i £49,999** | **£50,000+** | **Mae'n well gen i beidio â dweud** |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 19% | 42% | 15% | 5% | 23% |
| 1 | 51% | 45% | 57% | 46% | 48% |
| 2 | 24% | 8% | 23% | 41% | 23% |
| 3+ | 4% | 3% | 3% | 7% | 3% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 0% | 1% | 1% |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% | 0% | 3% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd, Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o ymateb incwm yr aelwyd. Sylfaen = 960 (Hyd at £19,999 = 172, £20,000–£49,999 = 427, £50,000+ = 206, Mae'n well gen i beidio â dweud = 155)

6.4 Roedd cerbydau hybrid ar gael i 19% o'r holl aelwydydd, a cherbydau trydan ar gael i 9% ohonynt. Roedd 65% o'r ymatebwyr a oedd yn gallu cael gafael ar geir trydan yn gallu eu gwefru gartref.

6.5 O'r aelwydydd a oedd yn gallu cael gafael ar un car / fan o leiaf, roedd y graddau yr oedd cerbydau hybrid a cherbydau trydan ar gael yn cynyddu gydag incwm yr aelwyd (Tabl 6.2).

**Tabl 6.2 – Ymateb i – 'O'r cerbydau y mae eich aelwyd yn gallu cael gafael arnynt, faint sy'n gerbydau trydan a/neu hybrid?' yn ôl incwm yr aelwyd ar gyfer aelwydydd sy'n gallu cael gafael ar un car / fan o leiaf.**

| Math o Gerbyd | **Cyfanswm** | **Hyd at £19,999** | **£20,000 i £49,999** | **£50,000+** | **Mae'n well gen i beidio â dweud** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hybrid | 19% | 18% | 18% | 25% | 12% |
| Trydan | 9% | 4% | 9% | 14% | 3% |


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Cwestiynau a ofynnwyd i aelwydydd sy'n gallu cael gafael ar un car / fan o leiaf. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o ymateb incwm yr aelwyd. Sylfaen = 727 (Hyd at £19,999 = 114, £20,000–£49,999 = 313, £50,000+ = 176, Mae'n well gen i beidio â dweud = 124)

### Dull teithio

### Car, trên a bws

6.6 Rhoddir yr amlder teithio mewn car, trên a bws yn Ffigur 6.1.

**Ffigur 6.1 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o le i le?’**




Disgrifiad o Ffigur 6.1: siart bar clystyrog sy’n dangos amlder teithio yr ymatebwyr mewn car, trên a bws.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd, Mae ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ wedi eu heithrio. Sylfaen car = 976, sylfaen trên = 971, sylfaen bws = 970.

6.7 Dywedodd 43% o’r ymatebwyr eu bod yn defnyddio car bob dydd, ac roedd 33% yn defnyddio car ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd.

6.8 Dywedodd 2% o’r ymatebwyr eu bod yn defnyddio trên bob dydd, ac roedd 5% yn defnyddio trên ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. Ar gyfer bysiau, roedd 4% o’r ymatebwyr yn eu defnyddio bob dydd, ac roedd 10% yn eu defnyddio ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. Dywedodd 25% o’r ymatebwyr

nad oeddent byth yn defnyddio trenau, a dywedodd 30% o'r ymatebwyr nad oeddent byth yn defnyddio bysiau.

**Beicio a cherdded neu ddefnyddio cadair olwyn**

6.9 Ar gyfer beicio (ar feic safonol), roedd 4% o'r ymatebwyr yn beicio bob dydd, ac roedd 3% yn beicio ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd, a 4% yn beicio unwaith yr wythnos. Dywedodd 14% o'r ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos, o'u cymharu â 9% o'r ymatebwyr benywaidd (Tabl 6.3).

**Tabl 6.3 – Ymateb i – 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio pob un o'r canlynol i deithio o le i le?' fesul gwrywod a benywod. Beic (safonol)**

| Amledd | **Cyfanswm** | **Benywod** | **Gwrywod** |
|---|---|---|---|
| Bob dydd | 4% | 3% | 6% |
| Ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd | 3% | 2% | 4% |
| Unwaith yr wythnos | 4% | 4% | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod', 'Arall' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymatebion gan Wrywod a Benywod, ac eithriwyd 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch Amlder. Sylfaen = 955 (Gwrywod = 454, Benywod = 501)

6.10 Dywedodd ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod yn beicio lleiaf o blith yr holl grwpiau oedran, a dywedodd 80% ohonynt nad oeddent byth yn beicio (Tabl 6.4).

**Tabl 6.4 – Ymateb i – 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio pob un o'r canlynol i deithio o le i le?' yn ôl oedran. Beic (safonol)**

| Amledd | **Cyfanswm** | **18 i 34** | **35 i 44** | **45 i 54** | **55 i 64** | **65+** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byth | 68% | 63% | 68% | 52% | 71% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymatebion ynghylch Oedran, ac eithriwyd 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch Amlder. Sylfaen = 963 (18–34 = 215, 35–44 = 170, 45–54 = 159, 55–64 = 1982, 65+ = 237)

6.11 Dywedodd 38% o'r ymatebwyr eu bod yn cerdded bob dydd er mwyn teithio o le i le (ac eithrio teithiau hamdden megis mynd â'r ci am dro), a dywedodd 22% eu bod yn cerdded ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. Dywedodd 20% o'r ymatebwyr nad oeddent byth yn cerdded o le i le.

**Tabl 6.5 – Ymateb i – 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio pob un o'r canlynol i deithio o le i le?' Cerdded / defnyddio cadair olwyn**

| Amledd | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Bob dydd | 38% |
| Ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd | 22% |
| Unwaith yr wythnos | 8% |
| O leiaf unwaith y mis, ond nid pob wythnos | 3% |
| Unwaith y mis | 2% |
| O leiaf 3 neu 4 gwaith y flwyddyn, ond nid pob mis | 3% |
| Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn | 2% |
| Pob 2 neu 3 blynedd, ond nid pob blwyddyn | 2% |
| Byth | 20% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio. Sylfaen = 968

### Awyren

6.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn teithio mewn awyren, dywedodd 33% ohonynt eu bod yn defnyddio awyren unwaith neu ddwywaith y flwyddyn; dywedodd 30% o'r ymatebwyr nad oeddent byth yn defnyddio awyren i deithio a dywedodd 20% eu bod yn defnyddio awyren bob 2 neu 3 blynedd (Tabl 6.9).

6.13 Dywedodd 50% o'r ymatebwyr yn y grŵp hyd at £19,999 nad oeddent byth yn teithio mewn awyren o'u cymharu â 14% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch. Roedd 42% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch yn teithio mewn awyren unwaith neu ddwywaith y flwyddyn o'u cymharu â 17% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn y grŵp hyd at £19,999. Ar gyfer teithio mewn awyren 3 neu 4 gwaith y flwyddyn, 17% i 7% oedd cymhariaeth grŵp incwm yr un aelwyd.

**Tabl 6.6 – Ymateb i – 'Pa mor aml ydych chi'n defnyddio pob un o'r canlynol i deithio o le i le?' yn ôl incwm yr aelwyd. Awyren**

| Amledd | Cyfanswm | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Unwaith y mis neu'n amlach | 6% | 8% | 6% | 5% | 2% |
| O leiaf 3 neu 4 gwaith y flwyddyn, ond nid pob mis | 12% | 7% | 12% | 17% | 12% |
| Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn | 33% | 17% | 32% | 42% | 41% |
| Pob 2 neu 3 blynedd, ond nid pob blwyddyn | 20% | 18% | 23% | 22% | 9% |
| Byth | 30% | 50% | 27% | 14% | 36% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o'r ymatebion ynghylch Oedran, ac eithriwyd 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch Amlder. Sylfaen = *926* (Hyd at £19,999 = 164, £20,000–£49,999 = 412, £50,000+ = 205, Mae'n well gen i beidio â dweud = 145)

### Camau teithio cynaliadwy

6.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu camau teithio. Cafodd y camau cynaliadwy eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith ar y nod o leihau allyriadau carbon.


6.15 Cafodd effaith y camau o ran lleihau allyriadau carbon ei chategoreiddio hefyd yn gamau effaith uchel iawn, uchel, canolig-uchel a chanolig. Mae'r categorïau uchel iawn ac uchel yn cynnwys osgoi defnyddio dulliau teithio sy'n ddwys o ran carbon (neu ddefnyddio teithio llesol yn lle hynny). Dosberthir osgoi hedfan fel effaith uchel iawn oherwydd bod hedfan yn ddull cludo sy'n ddwys iawn o ran carbon[10]. Dosberthir camau effaith canolig-uchel a chanolig fel y cyfryw oherwydd eu bod yn dal i gynnwys defnyddio rhyw fath o gludiant a fyddai'n arwain at allyriadau carbon[11].

6.16 Y camau cynaliadwy a adroddwyd amlaf a gymerwyd oedd cerdded neu ddefnyddio cadair olwyn pan fo hynny'n bosibl (63% o'r ymatebwyr, cam effaith uchel) a ddilynir gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n bosibl (37% o'r ymatebwyr, cam effaith canolig-uchel), ac osgoi teithio diangen (31% o'r ymatebwyr, cam effaith uchel) (Ffigur 6.2).

[10] Hannah Ritchie (2024) - "What share of global $CO_2$ emissions come from aviation?" Our World in Data
[11] Hannah Ritchie (2023) - "Which form of transport has the smallest carbon footprint?" Our World in Data

6.17 Y camau cynaliadwy lleiaf cyffredin oedd rhannu car (14% o'r ymatebwyr, cam effaith canolig-uchel), beicio pan fo hynny'n bosibl (15% o'r ymatebwyr, cam effaith uchel), ac osgoi hedfan (14% o'r ymatebwyr, cam effaith uchel iawn).

**Ffigur 6.2 – Ymateb i – 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?'**




Disgrifiad o Ffigur 6.2: siart far sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau teithio cynaliadwy.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd, yn ddieithriad. Sylfaen = 1,001

6.18 Mae cymharu'r camau cynaliadwy ag ymateb yr ymatebwyr i'r hyn yr oeddent yn credu sy'n achosi newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgarwch dynol yn ymgymryd â nifer ychydig yn uwch o gamau gweithredu na'r holl ymatebwyr eraill (Tabl 6.7).

**Tabl 6.7 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?' yn ôl achos newid hinsawdd.**

| Ymateb | Effaith Uchel Iawn / Uchel (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Canolig-Uchel / Canolig (cyfartaledd allan o 3) |
|---|---|---|
| Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd | 1.0* | 0.5* |
| Yn gyfan gwbl/yn bennaf gan brosesau naturiol | 1.3 | 0.7 |
| Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol | 1.2 | 0.9 |
| Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol | 1.7 | 0.9 |
| Cyfanswm | 1.5 | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 958 (Nid wyf yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd = 24, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan brosesau naturiol = 198, Yn gyfartal yn fras rhwng prosesau naturiol a gweithgarwch dynol = 201, Yn gyfan gwbl / yn bennaf gan weithgarwch dynol = 535)

* Maint sylfaen llai na 30 o ymatebwyr. Dylid dehongli'r canlyniadau yn ofalus.

6.19 Mae cymharu'r camau cynaliadwy ag ymateb yr ymatebwyr i'r graddau yr oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol yn ymgymryd â mwy o gamau teithio cynaliadwy na'r rhai a oedd yn credu nad oedd yn broblem ddifrifol (Tabl 6.8).

**Tabl 6.8 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?' yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem.**

| Ymateb | Effaith Uchel Iawn / Uchel (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Canolig-Uchel / Canolig (cyfartaledd allan o 3) |
|---|---|---|
| 1-2 Ddim yn ddifrifol | 0.9 | 0.3 |
| 3-5 | 1.1 | 0.5 |
| 6-8 | 1.4 | 0.8 |
| 9-10 Eithriadol o ddifrifol | 1.9 | 1.0 |
| Cyfanswm | 1.5 | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch ymddygiad cynaliadwy. Sylfaen = 965 (9-10 Eithriadol o ddifrifol = 305, 6-8 = 442, 3-5 = 147, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 71)

6.20 Mae cymharu'r camau teithio cynaliadwy â'r lefel yr adroddodd yr ymatebwyr eu bod yn pryderu am newid hinsawdd yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus 'iawn' neu'n 'eithaf' pryderus am newid hinsawdd yn ymgymryd â mwy o

gamau cynaliadwy na'r rhai nad ydynt yn bryderus iawn neu nad ydynt yn pryderu o gwbl.

6.21 Nifer cyfartalog y camau a gymerwyd gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus oedd 1.6 (allan o 5) ar gyfer camau effaith uchel iawn / uchel a 0.8 (allan o 3) ar gyfer camau effaith canolig-uchel / canolig (Tabl 6.9). Ar gyfer ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn bryderus iawn neu nad oeddent yn pryderu o gwbl am newid hinsawdd, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu ychydig yn is: 1.2 ar gyfer effaith uchel, a 0.5 ar gyfer camau effaith canolig-uchel / canolig.

**Tabl 6.9 – Ymateb i - 'Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?' yn ôl pryderu am newid hinsawdd.**

| Ymateb | Effaith Uchel Iawn / Uchel (cyfartaledd allan o 5) | Effaith Canolig-Uchel / Canolig (cyfartaledd allan o 3) |
|---|---|---|
| Ddim yn Bryderus Iawn / Ddim yn pryderu o gwbl | 1.2 | 0.5 |
| Pryderus iawn / Eithaf pryderus | 1.6 | 0.9 |
| Cyfanswm | 1.5 | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Dim un o'r uchod' ac Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb gweithredu cynaliadwy. Sylfaen = 954 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl = 295, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 659).

**Teithio ar gyfer gwyliau**


6.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o wyliau domestig pellter byr a phellter hir yr oeddent wedi eu cymryd yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwyliau domestig yw gwyliau yng Nghymru / y DU, gwyliau pellter byr yw gwyliau tramor i Ewrop, a gwyliau pellter hir yw gwyliau tramor i leoedd megis yr Unol Daleithiau, India, Affrica ac Awstralia. Tybir mai dim ond ar gyfer gwyliau pellter byr a phellter hir y mae angen hedfan.

6.23 Roedd ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch wedi cymryd mwy o wyliau o bob math yn ystod y 12 mis diwethaf nag ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd eraill. Cafodd 68% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch, wyliau pellter byr o leiaf unwaith, o'u cymharu â 51% o'r ymatebwyr ag incwm aelwyd rhwng £20,000 a £49,999, a 25% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn llai na £19,999 (Ffigur 6.3).

6.24 Ar y cyfan, dywedodd llai o ymatebwyr eu bod wedi cymryd gwyliau pellter hir yn y 12 mis diwethaf na gwyliau domestig neu bellter byr. Dywedodd cyfran uwch o

ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn fwy na £50,000 eu bod wedi cymryd gwyliau pellter hir (29%) o'u cymharu â grwpiau incwm eraill (25% a 10%).

**Ffigur 6.3 – Ymateb i – 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, faint o'r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi eu cymryd?' yn ôl incwm yr aelwyd.**




Disgrifiad o Ffigur 6.3: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n cymryd gwyliau domestig, pellter byr a phellter hir yn ôl incwm yr aelwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod' o ymateb incwm yr aelwyd. Sylfaen = 960 (Hyd at £19,999 = 172, £20,000–£49,999 = 427, £50,000+ = 206, Mae'n well gen i beidio â dweud = 155)

6.25 Ar gyfer gwyliau domestig, nid oedd 77% o'r ymatebwyr yn teithio mewn awyren i gyrraedd eu cyrchfan gwyliau. Ar gyfer gwyliau pellter byr, ni theithiodd 12% o'r ymatebwyr mewn awyren (Tabl 6.10).

**Tabl 6.10 – Ymateb i - 'O'r gwyliau a gawsoch yn ystod y 12 mis diwethaf, faint wnaethoch chi eu cyrraedd drwy hedfan?'**

| Ymateb | Gwyliau domestig | Gwyliau pellter byr | Gwyliau pellter hir |
|---|---|---|---|
| Dim | 77% | 12% | 9% |
| Un | 19% | 56% | 67% |
| Dau | 2% | 22% | 16% |
| Tri neu fwy | 2% | 11% | 8% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i

beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb. Sylfaen Ddomestig = 601, Sylfaen Pellter Byr = 480, Sylfaen Pellter Hir = 231.

**Teithio: Crynodeb**

6.26 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am gamau teithio.

6.27 Roedd y mwyafrif o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar o leiaf un cerbyd, gydag 51% ohonynt yn gallu cael gafael ar un car, a 24% yn gallu cael gafael ar ddau gar. Fodd bynnag, nid oedd 19% o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar gar. Roedd cerbydau hybrid ar gael i 19% o'r aelwydydd, a cherbydau trydan ar gael i 9% ohonynt.

6.28 Roedd 43% o'r ymatebwyr yn defnyddio car bob dydd, a dim ond 2% oedd yn defnyddio trên bob dydd a 4% yn defnyddio bysiau bob dydd. Roedd cerdded yn ddull teithio cyffredin, ac roedd 45% o'r ymatebwyr yn cerdded bob dydd.

6.29 Roedd ymatebwyr yn cymryd rhan mewn camau teithio cynaliadwy amrywiol, megis cerdded pan fo hynny'n bosibl (63%) a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (37%).

6.30 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgarwch dynol, a oedd yn credu ei fod yn broblem ddifrifol ac a oedd yn bryderus amdano, ychydig yn fwy tebygol o ymgymryd ag ymddygiad teithio cynaliadwy.

6.31 Cymerodd cyfran uwch o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn uwch wyliau yn ystod y 12 mis diwethaf o'u cymharu â'r rhai yr oedd eu hincwm yn is. Cafodd 68% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch wyliau pellter byr o leiaf unwaith, ac roedd 29% ohonynt wedi cael gwyliau pellter hir o leiaf unwaith.

# 7. Casgliad

7.1 Cynhaliwyd y trydydd arolwg meintiol o chwe camau ym mis Awst a mis Medi 2024. Casglwyd set ddata a oedd yn cynrychioli poblogaeth Cymru yn fras.

7.2 Manylir am allbynnau yr arolwg yn yr adroddiad hwn, gan dynnu sylw at unrhyw is-grwpiau o'r boblogaeth sydd ag agweddau neu ymddygiad gwahanol i gwestiynau penodol. Mae Adroddiad Cymharu'r Cam 4 yn cymharu'r allbynnau â thonnau blaenorol a dilynol ac yn nodi unrhyw newidiadau mewn agweddau neu ymddygiad.

7.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu canfyddiadau a'u hagweddau tuag at newid hinsawdd, defnydd o ynni yn y cartref, defnydd o fwyd, arferion bywyd bob dydd, a theithio.

7.4 Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn priodoli newid hinsawdd i weithgarwch dynol ac yn mynegi pryder yn ei gylch, ond mae'r rhai sy'n 65+ oed a hŷn ychydig yn llai pryderus na'r grwpiau oedran eraill. O blith grwpiau cymdeithasol, ystyrir mai busnesau a gwledydd y tu hwnt i'r DU yw'r lleiaf gweithgar wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd.

7.5 Er bod gan 66% o'r ymatebwyr fesuryddion clyfar, llai na hanner sy'n eu defnyddio'n rheolaidd. Mae bron i bawb yn cymryd rhai camau arbed ynni, gan ffafrio mesurau effaith is. Mae aelwydydd incwm uwch yn mabwysiadu mwy o dechnolegau sy'n fwy effeithlon o ran ynni, ac mae'r rhai sy'n pryderu am newid hinsawdd yn cymryd mwy o gamau arbed ynni.

7.6 Llaeth oedd y cynnyrch bwyd a fwytawyd yn fwyaf rheolaidd o'i gymharu â ffrwythau a llysiau, cig gwyn, cig coch, a physgod neu fwyd môr. Y newid dietegol mwyaf cyffredin oedd lleihau cyfran y bwyd a ddefnyddir, ac roedd llawer yn lleihau eu cymeriant cig coch. Mae gwastraff bwyd yn gyffredin, ac mae camau bwyd cynaliadwy effaith is yn fwy cyffredin na chamau effaith uwch. Mabwysiadodd ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn am newid hinsawdd gamau bwyd cynaliadwy yn amlach.

7.7 Mae camau dyddiol cynaliadwy cyffredin yn cynnwys rhoi, ailgylchu, a defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, a thrigolion y mae eu hincwm yn uwch a thrigolion trefol sy'n ymgysylltu fwyaf.

7.8 Mae 79% o'r aelwydydd yn gallu cael gafael ar o leiaf un cerbyd, ac mae cerbydau hybrid ar gael i 19% o'r holl aelwydydd, a cherbydau trydan ar gael i 9% ohonynt.

Mae 43% o’r ymatebwyr yn defnyddio car bob dydd.  Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn uwch wyliau, gan gynnwys teithio mewn awyren, o’u cymharu â’r rhai yr oedd eu hincwm yn is. Cafodd 68% o’r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch wyliau pellter byr o leiaf unwaith, ac roedd 29% ohonynt wedi cael gwyliau pellter hir o leiaf unwaith. Roedd y cyfranogwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn am newid hinsawdd yn cymryd camau teithio mwy cynaliadwy.

7.9 Ar draws y categorïau camau cynaliadwy ynni yn y cartref, teithio a bwyd cartref, roedd yr ymatebwyr a oedd yn cydnabod effaith ddynol yn newid hinsawdd, a oedd yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ac a oedd yn pryderu am newid hinsawdd, yn cyflawni camau â mwy o effaith na’r ymatebwyr eraill.  Roedd y canfyddiad hwn yn llai amlwg ar gyfer camau cynaliadwy bywyd bob dydd lle’r oedd llawer o ymatebwyr nad oedd yn cydnabod effaith ddynol yn newid hinsawdd yn cymryd camau effaith uwch hefyd.

7.10 Gallai sawl ystyriaeth methodolegol a dadansoddol effeithio ar ddehongliad y canfyddiadau. Amlinellir y rhain yn adran ‘cyfyngiadau a myfyrdodau’ Adroddiad Methodoleg Cam 3 a 4.


## Atodiad A – Data demograffig cam 4

Mae'r Atodiad hwn yn dadansoddi data demograffig Cam 4, sy'n nodi ymhellach y perthnasoedd rhwng y gwahanol nodweddion demograffig.

### Oedran a Gwrywod a Benywod

Roedd y gyfradd ymateb rhwng oedran a gwrywod a benywod yn unol yn fras â data cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Mae'r cyfuniad o'r categorïau hyn yn dangos bod ymatebwyr benywaidd yn tueddu i fod yn iau nag ymatebwyr gwrywaidd (Ffigur A.1). Roedd 45% o'r ymatebwyr benywaidd yn 44 oed neu'n iau o'u cymharu â 35% o'r ymatebwyr gwrywaidd, ac roedd 31% o'r ymatebwyr gwrywaidd dros 65 oed o'u cymharu â 19% o'r ymatebwyr benywaidd.

**Ffigur A.1 – Ymateb fesul gwrywod a benywod i - 'Beth yw eich grŵp oedran?'**





Disgrifiad o Ffigur A.1: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl oedran a rhywedd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio. Sylfaen = 982 (Benyw = 509, Gwryw = 473)

### Oedran a Math o Ardal

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r math o ardal yr oeddent yn byw ynddi. Mae ymatebwyr sy'n byw yng nghanol trefi neu ddinasoedd mawr yn tueddu i fod yn iau na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd eraill. Roedd 36% o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr rhwng 18 a 34 oed, o'u cymharu ag 21% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn (Ffigur A.2).

**Ffigur A.2 – Ymateb i - ‘Beth yw eich grŵp oedran?’ yn ôl math yr ardal.**




Disgrifiad o Ffigur A.2: siart colofn clystyrog sy’n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl oedran a math yr ardal.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae ‘Ddim yn gwybod’ ac ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ wedi eu heithrio. Sylfaen = 974 (Maestrefi = 249, Canol = 76, Pentref Mawr = 435, Cefn Gwlad = 214)

### Galwedigaeth a Math o Ardal

Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa grŵp galwedigaethol yr oedd y prif enillydd incwm yn yr aelwyd yn perthyn iddo.


Ar draws pob math o ardal, nododd yr ymatebwyr yn fwyaf cyffredin eu bod yn perthyn i’r grŵp galwedigaeth proffesiynol; y math o ardal â’r gyfran uchaf o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn perthyn i’r grŵp hwn oedd maestrefi dinas neu dref fawr (34%) (Ffigur A.3).

Ar draws pob math o ardal, dywedodd yr ymatebwyr yn lleiaf aml eu bod yn perthyn i grwpiau galwedigaethol myfyriwr a phrosesau, peirianwaith a pheiriannau.

Mae dosbarthiad y grŵp galwedigaethol a’r math o ardal yn eithaf cyfartal ar draws y mwyafrif o’r grwpiau, ac eithrio ymatebwyr sy’n fyfyrwyr ac yn weithwyr manwerthu a nododd yn fwy cyffredin eu bod yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr (7% ac 8% yn y drefn honno). Dywedodd y rhai a nododd eu bod yn perthyn i’r grŵp galwedigaethol rheolwyr, cyfarwyddwyr neu uwch-swyddogion eu bod yn byw

yng nghanol dinas neu dref fawr yn llai aml na mathau eraill o ardaloedd (3% o'u cymharu ag 11% ym mhob math arall o ardal).

**Ffigur A.3 – Ymateb i – 'Nodwch i ba grŵp galwedigaethol y mae'r prif enillydd incwm (y sawl sydd â'r incwm mwyaf) ar eich aelwyd yn perthyn' yn ôl math yr ardal.**



Disgrifiad o Ffigur A.3: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl galwedigaeth a math yr ardal.


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod', 'Arall / amherthnasol' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Sylfaen = 921 (Maestrefi = 238, Canol = 71, Pentref Mawr = 412, Cefn Gwlad = 200)

### Incwm ac Oedran

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am incwm blynyddol eu haelwyd cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill. Ni roddodd ychydig o dan un o bob pump o ymatebwyr ystod ar gyfer incwm eu haelwyd. Dewisodd 15% "Mae'n well gen i beidio â dweud" a dewisodd 4% "Ddim yn gwybod" (Ffigur A.4).

Roedd ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o nodi incwm eu haelwyd. Roedd yn well gan 18% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn beidio â nodi incwm eu haelwyd. Roedd ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod beth oedd incwm eu haelwyd (12%) o'u cymharu ag ymatebwyr mewn grwpiau oedran eraill.

**Ffigur A.4 – Ymateb i – 'Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)' yn ôl oedran.**





Disgrifiad o Ffigur A.4: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl incwm yr aelwyd ac oedran.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch oedran. Sylfaen = 995 (18–34 = 226, 35–44 = 176, 45–54 = 164, 55–64 = 186, 65+ = 243)

### Incwm a Math o Ardal

Mae archwiliad o incwm yr aelwydydd yn ôl mathau ardal (Ffigur A.5) yn dangos bod ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn bentref bach yn fwy tebygol o beidio â nodi incwm eu haelwyd (18%) o'u cymharu ag ymatebwyr sy'n byw mewn mathau eraill o ardaloedd. Maestrefi dinas neu dref fawr (27%) a chanol dinas neu dref fawr (21%) oedd y mathau o ardaloedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch.

**Ffigur A.5 – Ymateb i - 'Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)' yn ôl math yr ardal.**




Disgrifiad o Ffigur A.5: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl incwm yr aelwyd ac oedran.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb math o ardal. Sylfaen = 975 (Maestrefi = 249, Canol = 76, Pentref Mawr = 435, Cefn Gwlad = 215)


### Galwedigaeth ac Incwm

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr o bob grŵp galwedigaethol eu hincwm. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r grŵp galwedigaeth manwerthu, cyfanwerthu a

gwasanaethau cwsmeriaid (31%) a chrefftau medrus (30%) yn fwy tebygol o beidio â nodi incwm eu haelwyd nag ymatebwyr ag unrhyw alwedigaeth arall (Ffigur A.6).

Ar wahân i ymatebwyr di-waith ac ymatebwyr a oedd yn fyfyrwyr, 'galwedigaethau eraill' oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn y grŵp hyd at £19,999 (35%). Gweithwyr proffesiynol oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd dros £50,000 (42%).

**Ffigur A.6 – Ymateb i - 'Nodwch incwm blynyddol bras eich aelwyd (cyn trethi ac unrhyw ddidyniadau eraill)' yn ôl galwedigaeth.**





Disgrifiad o Ffigur A.6: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl galwedigaeth ac incwm yr aelwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. AmIddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Eithriwyd 'Ddim yn gwybod', 'Arall / amherthnasol' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' o'r ymateb ynghylch galwedigaeth. Sylfaen = 878 (Gweinyddol = 100, Cyswllt = 58, Gofalu = 36, Rheolwyr = 84, Arall = 50, Proses = 21, Proffesiynol = 220, Manwerthu = 55, Medrus = 99, Pensiynwyr = 92, Myfyrwyr = 28, Di-waith = 35)

**Deiliadaeth a Math o Ardal**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yr aelwyd yn berchen ar eu llety neu a oeddent yn rhentu. Mae'r cyfuniad o ddeiliadaeth a math o ardal yn dangos bod gan gyfran uwch o ymatebwyr mewn pentrefi mawr neu drefi bach (75%) neu faestrefi dinas neu dref fawr (72%) feddiant llwyr ar eu cartref, neu eu bod yn byw gyda'r sawl a oedd yn berchen ar eu cartref, o'u cymharu ag ardaloedd eraill (Ffigur A.7). Roedd yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn canol dinasoedd neu drefi yn fwy tebygol o rentu gan landlord preifat na'r ymatebwyr yn y mathau eraill o ardaloedd.

**Ffigur A.7 – Ymateb i – 'A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu yn ei rentu?' yn ôl math yr ardal.**





Disgrifiad o Ffigur A.7: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl deiliadaeth a math yr ardal.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio. Sylfaen = 956 (Maestrefi = 248, Canol = 74, Pentref Mawr = 424, Cefn Gwlad = 210)

### Deiliadaeth ac Incwm

Mae'r cyfuno deiliadaeth ac incwm yr aelwydydd yn dangos bod ymatebwyr a oedd yn rhentu yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd sydd hyd at £19,999, 58% (Ffigur A.8) o'u cymharu ag incwm aelwydydd eraill. Roedd gan 89% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch feddiant llwyr ar eu cartref, neu roeddent yn berchen ar y cartref ar forgais. Roedd gan 53% o'r ymatebwyr na ddatganodd incwm eu haelwyd feddiant llwyr ar eu cartref yn llwyr, neu roeddent yn byw gyda'r sawl a oedd yn berchen arno.

**Ffigur A.8 – Ymateb i – 'A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu yn ei rentu?' yn ôl incwm yr aelwyd.**




Disgrifiad o Ffigur A.8: siart colofn clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl deiliadaeth ac incwm yr aelwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 4 2025. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiwn i bob ymatebydd. Mae 'Ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi eu heithrio o'r ymateb ynghylch Deiliadaeth. Sylfaen = 971 (Hyd at £19,999 = 166, £20,000–£49,999 = 422, £50,000+ = 205, Ddim yn gwybod = 38, Mae'n well gen i beidio â dweud = 140)

### Patrymau Demograffig: Crynodeb

I grynhoi'r canfyddiadau allweddol ar nodweddion ymatebwyr Cam 4 yr arolwg:

- Roedd ymatebwyr benywaidd yr arolwg yn iau nag ymatebwyr gwrywaidd yr arolwg. Roedd yr ymatebwyr iau yn tueddu i fyw mewn canol dinas neu dref fawr, ac roedd yr ymatebwyr hŷn yn tueddu i fyw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach.
- Maestrefi dinas neu dref fawr oedd y math o ardal â'r gyfran uchaf o ymatebwyr yr oedd ganddynt alwedigaeth broffesiynol.
- Roedd cyfran fawr o ymatebwyr na ddatganodd incwm eu haelwyd. Roedd y grŵp hwn yn tueddu i fod yn hŷn ac â meddiant llwyr ar eu cartref.